



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

11 Awst 2022

Annwyl Llyr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2022, sy'n cynnwys cwestiynau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ôl i mi ddod i'r cyfarfod ar 15 Mehefin 2022. Mae f'ymateb wedi ei atodi.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Cwestiynau ychwanegol i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar ôl iddi ddod i gyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 15 Mehefin 2022.

1. A allech chi roi manylion y map ffordd i'r Pwyllgor?

Mae map ffordd ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus, gan gynnwys adeiladau, wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn y ddolen isod:

[Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru](#)

2. A allwch egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid i raglen dreigl o gyllid i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyflawni ei huchelgais ar gyfer y sector i ddatgarboneiddio erbyn 2033? Os felly, beth yw'r amserlen?

O ran y cyllid presennol ar gyfer y Rhaglen Ôl-ffitio er mwyn Optimeiddio (ORP) yn y sector tai cymdeithasol, rydym yn trafod newid y dull gweithredu a chynnig sy'n canolbwyntio ar newid y broses fidio gystadleuol. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn ymgynghori ar y cynigion drwy gyfarfod â rhanddeiliaid megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) a'n Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio (DIG) i gasglu barn a byddant wedyn yn rhoi cyngor i mi.

Rydym yn gwneud y gwaith hwn er mwyn cydnabod bod rhaid i bob RSL ddod ar y daith datgarboneiddio; rydym eisiau sicrhau bod cymorth cyson ar gael i gefnogi hyn.

Er hynny, nid yr ORP yw'r unig elfen ar y cyllid a gaiff Awdurdodau Lleol a Trosglwyddiadau Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVT), maent hefyd wedi cael Lwfans Atgyweiriadau Mawr a chyllid Gwaddol ac mae gan bob RSL incwm ei hun a'r gallu i fanteisio ar gyllid annibynnol arall. Rhaid i ni gydnabod y bydd cyllid wedi dod o ffynonellau amrywiol ac y bydd angen cyllid preifat a chyllid gan y llywodraeth. Felly mae angen i ni gael ateb hyfyw ar y cyd â'r sector. Yn y cyfamser, mae £220m ar gael ar gyfer ORP i helpu landlordiaid i gychwyn ar eu taith ddatgarboneiddio.

3. A allwch chi roi manylion y cyllid sydd ar gael i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig traddodiadol i'w cefnogi i ddatgarboneiddio eu stoc tai presennol?

Rydym angen i safon gael ei gadarnhau cyn cychwyn modelu a gwneud rhagdybiaethau. Ar hyn o bryd rydym ar ganol y cam ymgynghori mewn perthynas â ffurfioli safon SATC 2023 newydd. Mae'r ymgynghori yn canolbwyntio'n benodol ar gytuno ar y safon hwnnw. Unwaith y bydd cytundeb, byddwn yn gweithio drwy'r modelu ariannol.

Nod cyllid presennol SATC yw cefnogi cynnal a chadw cartrefi cymdeithasol hŷn, a llawer ohonynt wedi eu hadeiladu gan awdurdodau lleol yn y cyfnod 1950au i'r 1970au. I'r rhai sydd yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol, darperir y cymorth hwn fel Lwfans

Atgyweiriadau Mawr. Ar gyfer trosglwyddo stoc Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cytunwyd ar gyllid bwlch Gwaddol ar y pwynt trosglwyddo er mwyn sicrhau y gallai'r sefydliadau newydd gefnogi'r gwaith o gynnal a chadw'r stoc yn barhaus a pharhau'n hyfyw. Wrth i SATC gael ei weithredu, roedd y cymdeithasau tai traddodiadol yn dal cartrefi a oedd yn gallu cyflawni SATC yn gynt, felly ni chafodd cyllid ei gyfeirio at eu cefnogi i gyrraedd y safon SATC wreiddiol.

Wrth i ni edrych ymlaen at y SATC 2023 newydd, mae cyllid i gefnogi cynhesrwydd a datgarboneiddio fforddiadwy eisoes wedi bod ar gael i bob landlord cymdeithasol drwy'r ORP. Ond rydym yn parhau i gydweithio â landlordiaid i ddeall mwy am y modelau cyllido sydd eu hangen i gefnogi ein cynigion ar gyfer y safon i'r dyfodol.

Yn ystod yr 20 mlynedd ers gweithredu'r SATC gwreiddiol, ac ar y cyd â'n partneriaid cyflenwi ar gyfer landlordiaid cymdeithasol, rydym wedi buddsoddi biliynau o bunnoedd i wella a chynnal ansawdd cartrefi cymdeithasol yn sylweddol ledled Cymru (trwy SATC). Yn rhychwantu chwe gweinyddiaeth, mae SATC yn enghraifft o sut y gallwn gymryd golwg eang: buddsoddi mewn polisïau a rhaglenni tymor hir, gyda modelau ariannu tymor hir. Rydym wedi galluogi landlordiaid cymdeithasol i fuddsoddi'n hyderus dros y tymor hir mewn asedau a chymunedau. Rydym yn bwriadu sicrhau bod y safon newydd yn galluogi'r dull hwn ymhellach.

4. Pa mor hyderus ydych chi y bydd dysgu digonol o'r Rhaglen Ôl-osod erbyn 2023 i ddechrau datgarboneiddio cartrefi mewn deiliadaethau eraill?

Rydym ni'n gwbl eglur, o ran ôl-osod, mai ychydig o atebion syml sydd ar gael ac yn wir does dim un ateb i bawb o ran y stoc tai yma yng Nghymru. O gofio hyn, rydym wedi ymrwymo i gael dealltwriaeth mor glir â phosibl o'r materion ac wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid ledled y sector i sicrhau bod ein cynlluniau'n seiliedig ar dystiolaeth ac, er yn uchelgeisiol, hefyd yn gyraeddadwy yn y pen draw.

Rydym yn casglu tystiolaeth ac yn casglu data sylfaenol o eiddo sy'n cael eu ôl-osod ar hyn o bryd. Bydd y data hyn yn sicrhau y gallwn fesur effaith ein gweithgareddau buddsoddi. Dim ond trwy ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gallwn sicrhau bod buddsoddiad yn y dyfodol yn dibynnu ar atebion y gallwn fod yn hyderus eu bod yn gweithio ar draws gwahanol gartrefi a deiliadaethau gwahanol. Mae gweithio gyda'r sector tai cymdeithasol yn gyntaf hefyd yn helpu i gefnogi twf y sylfaen sgiliau, yn cynnig deunyddiau diogel a chadwyni cyflenwi sydd eu hangen i ddatgarboneiddio cartrefi Cymru ar raddfa fawr ac yn gyflym.

Heb os, mae datgarboneiddio cartrefi yn y sectorau rhentu preifat a'r sectorau perchen-feddianwyr yn fwy cymhleth. Ar ben hynny, rydym ni'n gwybod y bydd angen modelau ariannu arloesol i dalu am ddatgarboneiddio'r cartrefi hyn, ac na all costau hynny orffwys yn llawn ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd dysgu gan ORP, a chynlluniau eraill, ynghyd â dysgu o'r system ehangach (megis cynlluniau llywodraeth y DU, a'n Grŵp Gweithredu Datgarboneiddio arbenigol), yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ddechrau'r gwaith mewn deiliadaethau eraill.

5. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd, a'r cynlluniau y mae am eu cymryd, i sicrhau bod cartrefi newydd (ar draws y sectorau tai) yn cael eu hadeiladu'n ddi-garbon o ran safonau gweithredu?

Daeth 'Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 Mannau a Chartrefi Prydferth' i rym o Hydref 2021. Mae WDQR2021 fel y'i gelwir, yn gosod safon newydd feiddgar ar gyfer tai fforddiadwy newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r safon yn hyrwyddo dyluniadau carbon isel yn ogystal â symud i ffwrdd o danwydd ffosil ar gyfer systemau gwresogi a dŵr poeth domestig. Mae'n gosod gofynion o ansawdd newydd ar gyfer tai cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar hyblygrwydd, gofod a chynaliadwyedd. Mae'n sicrhau y bydd tai cymdeithasol yn arwain y ffordd o ran lleihau allyriadau carbon, gyda disgwyl i ddatblygwyr preifat adeiladu at yr un gofynion carbon isel erbyn 2025.

Mae hefyd nifer o brosiectau yn cefnogi'r daith i sero-net megis Cartrefi o Bren Lleol 2, Hwb sero-net a'r llyfr 'patrwm' cartref newydd sero-net gan ddefnyddio dull modern o adeiladu (MMC).

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru (DBW) i archwilio sut y gallai dwy gronfa eiddo bresennol ar gyfer adeiladwyr tai BBaCh, Cronfa Datblygu Eiddo Cymru a Chronfa Safleoedd Segur Cymru (WSSF), gael eu defnyddio i gefnogi'r agenda newid hinsawdd. O ganlyniad, mae'r Cymhelliant Cartrefi Gwyrdd wedi'i sefydlu a bydd yn defnyddio arian presennol gan yr WPDF a WSSF i ddarparu rhaglen beilot sy'n cynnig gostyngiadau wedi'u graddoli i ddatblygwyr mewn costau benthyg yn seiliedig ar faint o effeithlonrwydd ynni a mesurau carbon isel y maent yn eu hymgorffori yn eu datblygiadau tai newydd.

6. O ystyried bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban fel ei gilydd wedi mynegi siom ynghylch natur gyfyng yr eithriad, pa mor fodlon ydych chi fod y weithdrefn datrys anghydfod wedi bod yn effeithiol yn yr achos hwn?

O ran yr anghydfod ynghylch y gwaharddiad plastig untro, Llywodraeth yr Alban a geisiodd waharddiad ac a ddechreuodd yn ddiweddar gamau cynnar osgoi anghydfod a'r broses o ddatrys o dan y Fframwaith Adnoddau a Gwastraff. Cynigiwyd datrysiad gan swyddogion ac fe gytunwyd arno gan Weinidogion cyn i'r broses ffurfiol gael ei sbarduno. Dyma pam na chafodd y Pwyllgorau wybod.

Rwy'n eich cyfeirio at fy llythyr ar 31 Mai, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen gwaharddiad i gyflawni ein nodau polisi a deddfwriaethol, gan nad ydym o'r farn y gall Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig (UKIMA) gael yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei fod yn ei gael.

Er i Lywodraeth yr Alban dderbyn y gwaharddiad, roeddent yn mynegi rhwystredigaeth nad oedd mor eang ag y gofynnwyd amdano ar y cychwyn. Roeddwn yn hapus i gefnogi eu safbwynt yn hyn er nad wyf yn credu bod y gwaharddiad yn angenrheidiol i ni.

**7. A allwch gadarnhau bod yr anghydfod wedi cyrraedd lefel Weinidogol?
Os felly, pam na wnaethoch chi hysbysu'r Pwyllgor hwn/y Senedd?**

Gweler fy ateb uchod. Ni sbardunwyd y mecanwaith datrys anghydfod ffurfiol, a dyna pam na wnes i hysbysu'r Pwyllgor na'r Senedd.

8. A allwch egluro pam y gwnaethoch ddewis peidio â gofyn barn y Senedd ar yr eithriad cyn cydsynio i wneud Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Eithriadau o Egwyddorion Mynediad i'r Farchnad: Plastigau Untro) 2022?

Mae'r broses yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ysgrifennu at Weinidogion Cymru i ofyn am ganiatâd cyn gwneud yr OS eithriadau. Os na ddaw ymateb o fewn 30 diwrnod, yna gall yr Ysgrifennydd Gwladol fynd ymlaen i wneud yr OS eithriadau. Os am roi caniatâd, dylai'r Gweinidog perthnasol ysgrifennu at y PDCC a'r pwyllgorau perthnasol sy'n arwydd o'r caniatâd a'r rhesymau, yn ddelfrydol cyn rhoi caniatâd signalau i Lywodraeth y DU. Dylid gosod datganiadau ysgrifenedig ar ôl i'r OS gael ei wneud.

Dyna pam yr ysgrifennais at y pwyllgor hwn ar yr un pryd â PDCC sy'n arwydd o fy mwriad i roi caniatâd. Dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth sydd wedi dod ymlaen o dan y trefniadau hyn. Rwy'n cydnabod nad oedd hyn yn ddelfrydol a byddaf yn ceisio osgoi hyn yn y dyfodol. Rwyf wedi gofyn i swyddogion weithio i sicrhau ein bod yn cael mwy o rybudd mewn unrhyw brosesau yn y dyfodol fel y bydd cyfle i drafod unrhyw ganiatâd yn y dyfodol gyda'r Senedd.

9. A allwch ddarparu rhestr o'r rhanddeiliaid y mae eich swyddogion yn ymgysylltu â nhw? Pryd fydd yr adolygiad wedi'i gwblhau ac a wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi'r canlyniad?

Mae swyddogion wedi bod yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant plastigion, gwneuthurwyr, busnesau a grwpiau amgylcheddol. Mae swyddogion hefyd wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr grwpiau a allai gael eu heffeithio'n anghymesur gan y cynlluniau hyn. Er enghraifft, pobl anabl a'r rhai sy'n gofalu am blant bach. Mae'r trafodaethau hyn yn parhau a bydd trosolwg o'r sesiynau ymgysylltu hyn yn bwydo i mewn i ddogfennaeth ategol y Bil.

10. A allwch egluro pryd y bydd canlyniad yr Archwiliad Dwfn ar gael?

Oherwydd gohirio anochel ar un o'r sesiynau, cafodd yr amserlen ar gyfer yr Archwiliad dwfn ei ohirio rhywfaint, a olygai y bydd y Datganiad Gweinidogol nawr yn cael ei wneud yn dilyn toriad yr haf.

Ar ôl cael mewnbwn amhrisiadwy gan amrywiaeth o bobl a sefydliadau yn ystod yr ymgysylltu, bydd swyddogion nawr yn defnyddio toriad yr haf i ystyried y camau

gweithredu, tystiolaeth a safbwyntiau a gawsom i lunio cyfres o argymhellion clir. Byddaf yn rhannu'r argymhellion yn y Datganiad Gweinidogol ac yng nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ddechrau mis Hydref.

11. A allwch roi rhagor o fanylion am safbwynt Llywodraeth Cymru ar y drafft diweddaraf o fframwaith bioamrywiaeth byd-eang 2020?

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol o'r angen i gwblhau trafodaethau a chytuno ar Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang newydd ar ôl 2020 ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r argyfwng bioamrywiaeth yn real ac yn argyfyngus. Rydym yn cydnabod yr angen am weithredu brys, trawsnewidiol, nid gan lywodraethau yn unig, ond gan gymdeithas gyfan. O'r herwydd, rydym wedi bod yn bwydo i safbwynt y DU ar ddatblygiad eu safbwynt hwy ar y Fframwaith.

Fel llywodraeth is-genedlaethol, rydym yn chwaraewr allweddol ym mhroses Caeredin. Rydym yn sensitif i'r rôl hanfodol sydd gan llywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol wrth gyflawni'r Fframwaith ôl-2020 - bydd atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2030 yn gofyn am gydweithrediad ar bob lefel ac ym mhob grŵp o gymdeithas.

Mae'r Archwiliad Dwfn bioamrywiaeth diweddar wedi dangos ar yr olwg gyntaf pa mor bwysig yw hi ein bod yn ceisio dulliau arloesol o ymdrin â'r heriau sydd o'n blaenau; bydd hyn, ynghyd â'n cefnogaeth i'r targedau SMART o fewn y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, yn sbarduno'r cynnydd sydd ei angen arnom.

Fel y dywedais yn y pwyllgor, rwy'n awyddus i elwa i'r eithaf arCOP15, fodd bynnag, mae rhannu ein safbwynt cyn y gynhadledd yn bygwth tanseilio ein safbwynt trafod. Byddaf yn diweddarau'r pwyllgor maes o law, unwaith y bydd modd i mi wneud hynny.

12. Mae COP15 bellach wedi'i ohirio tan fis Rhagfyr 2022. Pa effaith a gaiff hyn ar gynlluniau Llywodraeth Cymru yn y maes polisi hwn, gan gynnwys, ar ddatblygu targedau bioamrywiaeth statudol?

Byddwn yn ystyried canlyniadau trafodaethau newydd ôl-2020 ar Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn ddiweddarach eleni wrth ddatblygu targedau natur a monitro yn y dyfodol yng Nghymru. Hefyd, rwyf am sicrhau bod ein hagwedd at dargedau statudol yn ystyried yr argymhellion gan y Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth. Rwy'n awyddus felly ein bod yn cymryd yr argymhellion o'r archwiliad dwfn bioamrywiaeth a'r fersiwn y cytunwyd arni o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020 i ystyriaeth cyn cyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol.

Mae'n bwysig bod y targedau yn gadarn ac yn hyblyg, ac yn ysgogi cynnydd dros y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y targedau'n ymarferol, yn hyfyw ac yn ystyried dull gweithredu gwytnwch yr ecosystemau a nodir yn ein Deddfau Amgylchedd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gofynnir i'r pwyllgor nodi bod yr amserlen ar gyfer targedau o'r fath yn ddibynnol ar adnabod cyfrwng deddfwriaethol priodol a slot i'r bil.

Yn ystod y cyfarfod, fe wnaethoch ymrwymo: – i ofyn am gytundeb Llywodraeth y DU i rannu ei safbwynt trafod sefydlog mewn perthynas â'r fersiwn ddrafft o Fframwaith Bioamrywiaeth 2020 gyda'r Pwyllgor.

Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â chydweithwyr DEFRA sy'n arwain ar hyn o safbwynt y DU i geisio cael cytundeb i rannu'r sefyllfa negodi. Byddaf yn diweddarau'r pwyllgor maes o law.